Wales Renewable Energy Bulletin

BWEA Wales Renewable Energy Bulletin

Issue 04 - April 2007

If you have not yet done so, please ensure that you subscribe to future electronic issues by visiting www.bwea.com/mail.

Election call: Tackle Climate Change – support Wind Power

On May 3rd the elections for the National Assembly will be held. The build-up to this presents an opportunity for the public to question the political parties on their policies in addressing climate change. The parties and candidates themselves will have an opportunity to make clear their policies on renewable energy and in particular give their unequivocal support to wind energy as the only immediate, viable and practical renewable energy solution that is now available to attain pressing targets. However, with the policy manifestos of Labour, Plaid Cymru, Conservatives and the Liberal Democrats having now been published, BWEA is concerned that not nearly enough attention has yet been given to generating clean, carbon free energy; three of the four manifestos fail to mention wind power.

There is a tendency for the political parties to avoid realistic and practical solutions to tackle climate change. Politicians need to realise the severity of the situation and the options available to drastically and immediately reduce greenhouse emissions. If we are to cut carbon and achieve the 2010 and 2020 renewable energy targets, as well as contribute to the increasing UK and EU targets, then onshore wind power is currently the main option available.

BWEA hopes that climate change and energy issues will be one of the main discussion points during the election campaign as it reflects the deep concern that the electorate has on the issue. Election candidates of every party are encouraged to join public opinion and voice their support for renewable energy and in particular onshore wind energy as a ready answer to a drastic problem.

Blaengwen Wind Farm

Force 9 Energy has received planning permission from Carmarthenshire County Council for its 10-turbine wind farm near Alltwalis and Pencader. This is the first planning application to be approved in Strategic Search Area G and puts Force 9 Energy at the forefront of wind farm development in this area which is encouraged by planning policy and supported by TAN8. The wind farm will have a maximum installed capacity of 30 MW. The original application for the wind farm had been with the Council since January 2005. The application was approved by the planning committee in August 2005 but surprisingly overturned by the Council's now disbanded Departures Committee pending the results of a study by Ove Arup to refine the Brechfa Forest Strategic Search Area. This study subsequently confirmed the Blaengwen site as being suitable technically and from a landscape and visual point of view and capable of making a significant contribution to the achievement of the Brechfa Forest capacity target of 90 MW by 2010. Work on the project is likely to start in the next 6 to 12 months with construction scheduled to be completed in 2008.

Photomontage of Blaengwen, taken from Brynawel Farm. Distance to nearest turbine is 2.9 km. © Force 9 Energy

Jerry Sturman, Business Development Manager at Force 9 Energy said "*We are delighted that the Arup study has confirmed Force 9 Energy's site selection and that the application has been approved after a very thorough assessment. The site is in an ideal location and will bring many benefits to the local community*".

Progress towards TAN8 targets

The Welsh Assembly Government has set clear targets for renewable energy generation in Wales by the year 2010 and the Welsh Energy Bulletin monitors progress. No additional MW has been generated by onshore wind power since June 2006, meaning that Wales is 74% behind schedule.

Onshore Wind Energy – progress towards the TAN8 target adopted in July 2005



Contact Llywelyn Rhys, BWEA Wales Officer
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

embrace the revolution
www.embracewind.com

Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru

BWEA Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru

Rhifyn 04 - Ebrill 2007

Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, a fyddech cystal â sicrhau eich bod yn tanysgrifio i rifynnau electronig yn y dyfodol drwy fynd i www.bwea.com/mail.

Galwad Etholiadol:

Ewch i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd - Cefnogwch Bŵer Gwynt

Ar y 3ydd o Fai, fe fydd yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu cynnal. Y mae'r cyfnod sy'n arwain atynt yn rhoi cyfle i'r cyhoedd holi'r pleidiau gwleidyddol ynglŷn â'u polisïau o ran rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd. Fe gaiff y pleidiau a'r ymgeiswyr eu hunain gyfle i egluro'u polisïau yn ymwneud ag ynni adnewyddol ac yn neilltuol, i roi'u cefnogaeth ddiamwys i ynni gwynt fel yr unig ateb uniongyrchol syth, dichonadwy ac ymarferol i sefyllfa ynni adnewyddol sydd yn awr ar gael i gyrraedd targedau brys. Fodd bynnag, gyda maniffestos polisïau'r Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol bellach wedi'u cyhoeddi, y mae'r BWEA yn bryderus nad oes hanner digon o sylw wedi'i roi eto i gynhyrchu ynni glân a di-garbon; nid yw tri o'r pedwar maniffesto yn crybwyll pŵer gwynt.

Y mae yna dueddiad i'r pleidiau gwleidyddol osgoi atebion realistig ac ymarferol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Y mae angen i wleidyddion sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa a'r dewisiadau sydd ar gael i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn aruthrol ac yn uniongyrchol syth. Os ydym yn mynd i ostwng carbon a chyrraedd y targedau ynni adnewyddol ar gyfer 2010 a 2020, yn ogystal â chyfrannu tuag at dargedau cynyddol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yna pŵer gwynt ar y tir ar hyn o bryd yw'r prif ddewis ar gael.

Y mae'r BWEA yn gobeithio mai'r newid yn yr hinsawdd a materion ynni fydd un o'r prif bynciau trafod yn ystod yr ymgyrch etholiadol, gan ei fod yn adlewyrchu'r pryder taer sydd gan yr etholwyr ynglŷn â'r mater. Fe anogir ymgeiswyr etholiadol pob plaid i ymuno â'r farn gyhoeddus a lleisio'u cefnogaeth dros ynni adnewyddol, ac yn neilltuol dros ynni gwynt ar y tir, fel ateb parod i broblem enbyd.

Fferm Wynt Blaengwen

Y mae Force 9 Energy wedi derbyn caniatâd cynllunio oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ei fferm wynt ddeg tyrbin ger Alltwalis a Phencader. Hwn yw'r cais cynllunio cyntaf i gael ei gymeradwyo yn Ardal Chwilio Strategol G, ac y mae'n rhoi Force 9 Energy ar flaen gad datblygiad ffermydd gwynt yn yr ardal hon, a anogir gan bolisi cynllunio ac a gefnogir gan TAN8. Fe fydd gan y fferm wynt uchafswm cynhwysedd gosodedig o 30 MW.

Yr oedd y cais gwreiddiol am y fferm wynt wedi bod gyda'r Cyngor ers mis Ionawr 2005. Fe gymeradwywyd y cais gan y pwyllgor cynllunio ym mis Awst 2005 ond er syndod fe'i gwrth-drowyd gan Bwyllgor Gwyriadau'r Cyngor, pwyllgor sydd bellach wedi'i ddiddymu hyd nes y ceir canlyniadau astudiaeth gan Ove Arup i goethi Ardal Chwilio Strategol Coedwig Brechfa. Fe wnaeth yr astudiaeth hon ar ôl hynny gadarnhau safle Blaengwen fel lle sy'n addas yn dechnolegol ac o safbwynt tirwedd ac o safbwynt gweledol ac sy'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at gyrraedd targed cynhwysedd Coedwig Brechfa o 90 MW erbyn 2010. Y mae gwaith ar y prosiect yn debygol o ddechrau yn ystod y 6 i 12 mis nesaf, gyda'r gwaith adeiladu wedi'i amserlennu i gael ei gwblhau yn 2008.

Fe ddywedodd Jerry Sturman, Rheolwr Datblygu Busnes yn Force 9 Energy: "Y*r ydym wrth ein boddau bod astudiaeth Arup wedi cadarnhau dewis Force 9 Energy o safle a bod y cais wedi'i gymeradwyo ar ôl asesiad trylwyr iawn. Y mae'r safle mewn lleoliad delfrydol ac fe ddaw â llawer o fuddion i'r gymuned leol.*"

Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2010, ac y mae Bwletin Ynni Cymru yn cadw golwg ar gynnydd. Nid oes yna MW ychwanegol wedi'i gynhyrchu gan bŵer gwynt ar y tir ers mis Mehefin 2006, sy'n golygu bod Cymru 74% yn hwyr yn ôl yr amserlen.

Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



Cysylltwch â Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

croesawch y chwyldro
www.embracewind.com